


Cythraul y Canu
gan
D. Derwenydd Morgan



Cythraul y Canu

neu

Cor y Lle.

COMEDI

gan

D. DERWENYDD MORGAN, M.P.S.L.
Pencader.

Awdur :- 'Dic Penderyn,' 'John a Mari,' 'Cymru
am Byth,' 'Yn Eisiau-Gwraig,' 'Hen
Gariad,' 'Rhoi'r byd yn ei le,' etc.



"Un o'r rhai mwyaf doniol yn yr iaith. Yn fwrlwm o hiwmor.
Y chwaeth yn bur, a'r ergyd yn bendant."

PRIS 1/6.

(Gellir cael hawl i'w hactio am gydnabyddiaeth resymol,
Goheber a'r Awdur)

CAERFYRDDIN :

W. M. EVANS A'I FAB.

Cythraul y Canu

neu

Cor y Lle.

— — — — —
⋈


COMEDI

gan

D. DERWENYDD MORGAN, M.P.S.L.
Pencader.

— — — — —
⋈

Awdur :- ‘ Dic Penderyn,’ ‘ John a Mari,’ ‘ Cyn... u
am Byth,’ ‘ Yn Eisiau-Gwraig,’ ‘ Hen
Gariad,’ ‘ Rhoi’r byd yn ei le,’ etc.



“ Un o’r rhai mwyaf doniol yn yr iaith. Yn fwrlwm o hiwmor.
Y chwaeth yn hur, a’r ergyd yn bendant.”

PRIS 1/6.

(Gellir cael hawl i’w hactio am gydnabyddiaeth resymol,
Goheber a’r Awdur)

CAERFYRDDIN :

W. M. EVANS A’I FAB.

CYMERIADAU.



SIMON JONES.—Hen ŵr penwyn. Dros ei bedwar ugain oed; ychydig yn gloff ei gerddediad. Gwallt hir, wyneb- agored. Llygad llon, direidus; yn siarad â llais uchel gan roddi pwyslais arbennig ar ambell air; hen frawd yn teddiannol ar lawer o wreiddioldeb ac arbenigrwydd.

PARCH. GWYN EVANS.—Gweinidog y lle. Dyn tua chanol oed, o olwg urddasol a diwylliedig; yn gwisgo fei pregethwr neu offeiriad, sef dillad duon a “ coler rownd.”

SIFENCYN JENKINS.—Dyn tal tenau, tua hanner cant oed. Teiliwr y pentref. Yn gwisgo'n lanwedd, heb fod yn or-drwsiadus. Crafat am ei wddf. Gwallt du, hir. Ychydig fwstach, yn edrych yn gerddorol, ac yn hoff o fwmian canu.

MARTHA JENKINS.—Gwraig yr uchod. Tua hanner cant oed. Dynes dew lewyrchus, ffraeth ei thafod. Yn siarad â llais uchel, clochaid, ac yn sarrug ei thymer.

MARGED ELEN.—Merch yr uchod, tuag ugain oed. Geneth dawel ac addfwyn, wedi gwisgo'n ddestlus, ond nid yn rhodresgar.

TELORYDD ISAAC.—Dyn trwsiadus a diwylliedig, tua 25 oed; yn gwisgo'n dda: cuffs, cadwyn aur, ychydig fwstach.

MARI ISAAC.—Mam Telorydd. Tua hanner cant oed, tal, tenau, hunanol, miniog ei thafod, sarrug ei thymer. Yn gwisgo'n drwsiadus. Gall ddefnyddio 'pince-nez' os yn gyfleus.

PRISCILLA.—Merch dal, ugain oed, yn gwisgo'n 'fodern' iawn, ac yn or-drwsiadus. Yn siarad Cymraeg gyda llediaith Seisnigaidd, ac yn ymddangos yn falch a rhodresgar.

WIL BACH.—Hogyn tua phymtheg oed. Bychan o gorrifolaeth i ateb ei oed; yn gwisgo'n gyffredin iawn; ei grys allan drwy ei ddillad. Ei wyneb yn fawlyd. Ei

wallt hir i lawr dros ei dalcen; ei lais yn uchel ac yn tain. Rhyw wên ddiereidus ar ei wyneb, yn edrych fel hanner ynfyty (village simpleton).

CYTHRAUL Y CANU.—'Mask' mawr hyll ar ei wyneb. Gellir cael y cyfryw mewn unrhyw dref am ychydig gein-iogau. Gwisged glogyn mawr dros ei ben. (Gwna blanced neu 'sheet' gwely y tro). Gwneir ddau gorn mawr wrth y clogyn, y rhai hyn o liw gwahanol i'r clogyn neu y blanced. Gall hefyd addurno ei ben â phlufen neu ddwy. o gryn faintioli. Gydag ychydig ddeheurwydd, gellir gwneuthur yr oll i edrych yn bur efeithiol. Mynner hefyd gadwyn (gwna 'plough chain' y tro). Gosoder un pen o'r gadwyn am ei wddf neu ei ganol, gan adael i'r gadwyn i lusgo ar ei ôl ar y llwyfan.

Nid yw'r uchod ond awgrymiadau, gall y cyfarwyddwr ddefnyddio ei chwaeth ei hun ynglŷn â'r gwisgoedd).

Os bydd digon o le ar y llwyfan, gall rhyw ddwsin o rai heb fod yn perthyn i'r cwmni fynd i eistedd er mwyn creu brwdfrydedd a dangos bod cynhulliad lluosog yng nghyfarfod y Côr. Ni raid i'r rhai hyn wisgo'n wahanol i arfer. Bydded iddynt glapio a gwaeddi; rhai ohonynt i gefnogi un blaid, a'r gweddill y blaid arall. Gallant bleidleisio, a gallant ganu ar y diwedd. Disgwylir i bawb fo ar y llwyfan fod yn llawn bywyd a brwdfrydedd, a dangos diddordeb mawr ymhob symudiad.

GOLYGFA.

Ni raid wrth lawer o gost na thrafferth i lwyfannu y Gomedï hon. Y mae wedi ei threfnu fel y gellir ei llwyfannu mewn ysgoldai bychain, os bydd galw. Mynner llwyfan gweddol lydan os yn bosibl. Hongier y llen fel y bo rhyw ddwy droedfedd rhyngddi a phen blaen y llwyfan. Mynner y llen i agor yn y ddau ben. Os bydd darlun-lenni at law, mynner ddarlun o ystryd, gyda phorth yn agor i ryw adeilad; neu, gwell fyth fyddai cael drws yn un pen i'r llen. Ar y llwyfan, nid oes angen ond ystafell foel fel festri capel, gyda bwrdd, ychydig gadeiriau a meinciau. Os ewyllysier gwneuthur y lle yn fwy atyniadol, gosoder blodau ar y bwrdd; mynner le tân, a hongier 'modulator' y Tonic Solffa ac ychydig ddarluniau ysgrythurol ar y muriau.

"CYTHRAUL Y CANU."

GOLYGFA I.

(Gadawer y llen i lawr, a throer y golau allan ar y llwyfan, gan adael y llwyfan yn weddol dywyll).

(Y Parch. Gwyn Evans a Simon Jones yn dod y tu flaen i'r llen, rhwng y llen a'r gynulleidfa. Y ddau wedi gwisgo eu cotiau mawrion, ac yn cario pobo ffon. Yn symud yn araf ac yn ymgomio. Gallant ddod allan yn un pen i'r llwyfan, yna cerdded ar y llwyfan, a mynd i mewn drwy y drws yn y pen draw).

GWYN EVANS.—Gwell i chwi gydio yn fy mraich i. Simon Jones. Y mae hi dipyn yn dywyll a'r ffordd yn dolciog.

SIMON.—Diolch, diolch. 'Dyw'r hen ffenestri yma ddim cyn gliried ag y buont, frawd bach. Mae pedwar ugain mlynedd wedi tywyllu cryn dipyn arnynt.

GWYN EVANS.—Posibl, posibl. 'Dyw oedran ddim yn dod wrtho ei hun.

SIMON.—Nad yw, nad yw. Dipyn yn hwp-di-hap yw hi arna i yn awr. Ond bu gen i lygaid unwaith fel llygaid cath. Pe byddai y nos cyn ddued a bola buwch ddu, fe ffeindiwn y ffordd i'r Ysgol Gân ac i'r Cwrdd Gweddi.

GWYN EVANS.—Wel, mae yna "Heading Caled," ys dywed y coliar o'n blaen heno, Simon Jones. Mae rhyw derfysg rhyfedd ynglŷn â'r corau canu yma.

SIMON.—Pup, pup. Welais i erioed ffashwn beth; erioed ffashwn beth. Mae y cyfan yn fflwch-di-fflach, ac yn higgie-di-pigledi. Ydyw, gwir ddyn byw. Bawc sut beth!

GWYN EVANS.—Ydyw, mae yn dân o Dan i Beer seba.

SIMON.—Wn i ddim faint o gythreuliaid sydd yn rhydd ar y ddaear yma, ond rwy'n credu hyn, mai y gwaethaf o'r adar duon i gyd yw 'Cythraul y Canu.' Be wedwch chwi, syr?

GWYN EVANS.—Un garw yw e. Mae e a'i gorn neu'i big yn rhywle o hyd.

SIMON.—'E fu yma gôr canu yn y lle unwaith, o dan arweiniad Shanko'r teiliwr, oedd yn ddiguro bron.

GWYN EVANS.—Gwir, gwir, a daeth y côr a'r lle hwn i enwogrwydd.

SIMON.—Ac yr oedd y teiliwr yn arweinydd, syr. Hynny yw, os y gallech chwi ddygymod â'i ystumian ef. Y gwir ag e, fe dynnai'r hen deiliwr ganu allan o byst llydiard, ac fe'i tyn ef eto. Mae gweled y teiliwr yn arwain côr yn hala rhywbeth trwyddo chwi fel pe taе chwi mewn mashin wynegon.

GWYN EVANS.—Ydi. Mae'n enaid i gyd. Dyna sydd eisiau mewn canu.

SIMON JONES (Yn peswch).—Mae'r hen frest yma'n gyfyng, fachgen. Gadewch i ni gael anadl, a mygyn cyn myned i mewn. (Yn tanio'i bibell).

GWYN EVANS.—Ie, mae'n gynnar i'r cyfarfod.

SIMON.—Ie, ie, a piti garw; fe ddaeth cythraul y canu i fewn i'r côr, ac fe aeth yn firwgwd yma fel y gwyddoch. Ac fe gododd y côr "split" yna o dan arweiniad Telorydd, a byth oddiar cychwyniad y côr 'split' mae wedi bod yn 'civil war' yma. Ydi, gwir ddyw byw.

GWYN EVANS.—Nid wyf yn gallu cysoni pethau. Mae arweinydd yr hen gôr ac arweinydd y cor newydd yn fechgyn rhagorol, a chyn belled ag y gwelaf fi, yn eithaf cyfeillgar â'i gilydd.

SIMON.—Am Shanko'r Tiliwr, arweinydd yr hen gôr, bu dim o'i well ef mewn crys erioed. Am Telorydd, arweinydd y côr newydd, mae fel y dur, yn ben cerddor ac yn ben arweinydd cor.

GWYN EVANS.—Fy marn i yw y cytunai'r arweinyddion, onibai am y dynion sydd tu ôl iddynt.

SIMON.—Dynion! Pup, pup. Dywedwch 'menywod,' os daw cythraul y canu fewn i gôr, ellwch chwi fentro mai ymhŵith y sopranos neu yr altos y dechreuа â'i antics.

GWYN EVANS.—Y nhw yw'r llestri gwannaf.

SIMON.—Mae gennyf bob parch i fenyw, cofiwch chwi. Menyw oedd mam, a menyw oedd Nansi, fy ngwraig, ac ni fu erioed eu gwell, ond fe wnaeth menyw gawl o'r fusnes gyntaf hynny yn Eden, ac y mae'n gwneuthur cawl o bethau oddiar hynny.

GWYN EVANS.—Ha! Ha!! Ac yn enwedig o gorau canu Simon Jones.

SIMON.—Yn corddi y cyfan, syr.

GWYN EVANS.—Wel, os oes côr i fynd oddiyma i'r Genedlaethol, mae'n rhaid cael trefn ar bethau'n well na hyn.

SIMON.—Rwy'n credu mod i wedi gweled y ffordd allan o'r dyryswech, syr.

GWYN EVANS.—Da iawn; gŵr da ydych chi, Simon Jones.

SIMON.—Mae Telorydd a Marged Elen yn caru, syr.

GWYN EVANS.—Ha! Ha!! Caru'n wir! Choelia i ddim. A'r holl elyniaeth sydd gan y ddau deulu, y naill tuag at y llall. Chwi ddwedsoch hi nawr, Simon Jones.

SIMON.—Mae e mor wir â phader, syr. Mae'r hen Simon yn myned yn hen, ond dim yn rhy hen i sylwi ar y caru yma. Gwelais y ddau neithiwr ddiweddaf efo'i gilydd ar lwybr y Waun, ac yr oedd e yn ei choffeidio hi'n deidi.

GWYN EVANS.—Chredaf fi byth. Chredaf fi byth. Efallai mai trefnu ynghylch y gymdeithas ddiwylliadol yr oeddynt.

SIMON.—Pup, pup! Yn y fan yna 'rych chwi eto, y dyn! Pan welwch chwi fab a merch yn cerdded ym 'mreichiau ei gilydd, ac yn aros bob rhyw gan llath i goffeidio neu gusanu, mae yna rywbeth yn y gwynt heb law siarad am y Gymdeithas Ddiwylliadol. Chlywais i erioed sut beth.

GWYN EVANS.—Ydyw'r hen bobl yn gwybod am y garwriaeth?

SIMON.—Dim gwec. Cyn belled ag y gwn i, na neb yn y lle ychwaith. Maent yn gyfrwys ofnadwy efo'u caru.

GWYN EVANS.—Wel, efallai mai Marged Elen fydd yn oſtelyn i heddychu'r corau. Merch fach ragorol yw Marged Elen, onide?

SIMON.—Un o'r goreuon, fachgen; un o'r goreuon, Mae Marged Elen yn meddwl yn gyntaf ac yn siarad wedyn. Mae llawer o'r rhocesi heddiw yn siarad yn gyntaf ac yn meddwl wedyn.

GWYN EVANS.—Ydynt, ydynt, os yn meddwl o gwbl.

SIMON JONES.—Rhaid i ni ymddibynnu ar Marged Elen, ynte. Rhaid i ni dynnu ar y llinyn yna, fachgen. "Cariad ni chwymp ymaith."

GWYN EVANS.—Eithaf gwir. Cariad nid yw byth yn methu. "Love never faileth."

SIMON.—Ie, treiwn hi, treiwn hi. Pwy sy yna? Fe gredais i mod i'n clywed swm.

GWYN EVANS.—Do, Wil bach. Efe yw ceidwad y porth heno.

SIMON.—O! Wil bach, ai ie fe? Gynneuaist ti y gole yn y festri?

WIL BACH.—Do. Dewch i mewn.

SIMON.—Wel, be sy gennyt ti i ddweud, Wil bach? Yr wyt yn wr da am glecs ynghylch y corau yma.

WIL.—Ma hi i fod off yma heno. Ha! Ha!! Off yma heno.

SIMON.—Be gest ti i feddwl hynny? Pup, Pup.

WIL BACH.—Wel, mae Mari Isaac a Martha Jenkins wedi bod yn cerdded o un tŷ i'r llall drwy y dydd, a ma gwallt nhw yn sefyll ar wrych er ys amser.

SIMON.—Be ti'n whalu, bachan? Glywais i erioed sut beth! Pup, pup.

WIL.—Mae Mari Isaac yn dweud os nad yw Telorydd yn cael arwain y Côr Cenedlaethol y bydd yma ddiain o row.

SIMON.—Pup, pup. Chlywais i erioed ffashwn beth.

WIL.—Martha Jenkins yn dweud os nad yw Shanko yn cael arwain y côr, y bydd "fireworks" yn y cyfarfod heno.

SIMON.—Pup, pup. Chlywais i erioed ffashwn beth. Erioed ffashiwn beth.

(Wil bach yn agor y drws, a'r ddau yn myned y tu mewn i'r llen).

(Siencyn, Martha a Marged Elen yn dod y tu flaen i'r llen).

SIENCYN.—Mae dipyn yn dywyll, Martha. Gofalwch chwi nawr na chwympoch chwi. Deuwch yn fy mraich i.

MARTHA.—Na, cer di, Siencyn bach. Deuaf fi ym mraich Marged Elen.

SIENCYN.—O'r gore. O'r gore. (Yn mwmian canu rhyw hen Alaw Gymraeg).

MARTHA.—Siencyn!

SIENCYN.—Wel!

MARTHA.—Gofala di, nawr. Gwrando di beth yr wyt fi yn ddweud wrthot ti. Paid ti a gadael iddynt i gael eu ffordd yn y cyfarfod heno. Gormod o'u ffordd mae y tacle brwnt wedi ei gael.

SIENCYN.—O'r gore. O'r gore, Martha fach, gewch chwi siarad â hwynt.

MARTHA.—Ie, a mi siarada i hefyd, gallant fentro. 'Does dim un côr i fyned oddiyma i Gaerdydd. (Gellir newid hwn drwy y gomedi am y lle y cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf), os nad wyt ti'n cael arwain. Neu bydd yma 'randibw' i gael.

MARGED ELEN.—Mam fach, pa eisiau cweryla yng nghylch yr hen gorau sydd. Gadewch lonydd i bethau.

MARTHA.—Llonydd, yn wir! Be ti'n whalu groten? Dy dad wedi slafo fel hyn, a hynny cyn dy eni di, wrth yr hen ganu yma, a dyma'r parch y mae'n gael eto. Codi'r hen "split" yna a sbwylio côr dy dad. Cywilydd iddynt.

SIENCYN.—O'r gore. O'r gore, Martha fach. Tipyn yn gynhyrfus yw hi, ond efallai y bydd i'r cymylau glirie dipyn heno. Dyma ni wrth yr adeilad.

MARTHA.—Ie, a gofala di na bo ti yn rhoi dy hunan yn glwtyn llestri yn eu llaw hwynt. Sych dy wyneb cyn myned i fewn. 'Does dim eisiau i bawb wybod mai bwdran gest ti i swper. Mentraf fi y bydd yr hen Delorydd bach yna yn ei 'guffs' a'i goler yn 'spic a span.'

SIENCYN.—Bydd, efallai'n wir. Mae e'n ifanc.

MARTHA.—Ie, a'r hen groten Priscila yna. Mae'n gae gen i ei chlywed. Wedi bod am chwe mis yn Llundain yn gwerthu calico, ac wedi anghofio'i Chymraeg. Ych y ti!!

(Y tri yn myned i fewn. Wil bach yn agor ac yn cau y llwyfan. Mari, Telorydd a Priscila yn dod i'r llwyfan y tu flaen i'r llen, ac yn cerdded yn araf, dan ymgomio i'r pen arall).

TELORYDD.—Dewch ymlaen. Yr ydym yn ddiweddar i'r cyfarfod.

MARI.—Ydym. Gofala di nawr Telorydd i sefyll ar dy sawdl heno. Gwrando di beth y mae dy fam a dy chwaer yn ddweud wrthot ti. Os oes côr i fynd i Gaerdydd, y ti sydd i arwain. Dyna y long a'r short am dani.

TELORYDD.—Ie, ie, mam fach, ond piti enbyd yw'r eweryla yma. Mae hyn yn lladd gwir ysbryd canu.

MARI (Yn bwysleisiol).—Lladd ysbryd canu neu beidio. 'Does dim eisiau iddynt hwy i gael eu ffordd.

PRISCILA.—Nac oes, nac oes. Certainly not.

MARI.—'Does gen i ddim yn erbyn Siencyn ei hun. Ond am y fenyw yna sydd ganddo, mae'r un peth gen i weld yr ysbryd drwg ei hun a'i gweld hi. Mae fel cath wyllt obentu'r lle.

PRISCILA.—Os i ni mynd a côr i Cenedlaethol, rhaid i ni mynd 'in best of style.' Rhaid i ni gael 'Conductor' 'up-to-date,' ac yn gwisgo 'up to the mark' fel Telorydd ni. Ma Siencyn Tilwr yn very shabbily dressed.

MARI.—Ydi, ydi, a mae ef weithiau'n dod i'r Practice heb ymolch na shafio.

TELORYDD.—Wel, gobeithio y deawn i ryw gyd-ddealltwriaeth. Ofer meddwl am fyned i Gaerdydd heb yr ysbryd priodol. (Y tri yn myned y tu fewn i'r llen).

GOLYGFA II.

Iroer y goiau ymlaen yn llawn, a choder y llen. Yr holl gwmi, ac eithrio Cythraul y Canu yn bresennol.

(Os bydd rhyw gwmi yn dewis Comedi fer—Un Olygfa, gallant ddechrau yn y fan hon, a gadael yr olygfa gyntaf allan. Ni fydd hynny'n niweidio fawr ar gwrs y Gomedï).

GWYN EVANS.—Yn awr, gan eich bod oll yma, gwell i ni ddechrau. Amcan y cyfarfod, fel y gwyddoch, yw trefnu ynghylch myned â Chôr y lle i'r Eisteddfod Genedlaethol i gystadleuaeth y Corau Gwledig.

CWMNL.—Clywch! Clywch! Os oes yna ryw deimiadan annymunol wedi bod yn ffynnu ynglŷn â'r corau'n ddiweddar

SIMON.—Ie, ie, tut, tut. Bawo sut beth!

GWYN EVANS.—Wel, rhaid i ni gladdu'r oll, gan adael y pethau sydd o'r tu ôl, ac ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen. (Cwmni: Clywch! Clywch!).

SIMON JONES.—Ie, jawst i, dyna weyd da yn awr.

GWYN EVANS.—'Rwy'n cynnig Mr. Simon Jones i'r gadair. Efe yw'r hynaf, ac o bosibl y doethaf yn y pentref, ac wedi bod yn un o Fâswyr gore Cymru yn ei ddydd. Pawb sydd drosto, coded ei law?

(Pawb yn codi eu dwylo, ac yn clapio).

SIMON.—Na, na, rwy'n cynnig y Parchedig Gwyn Evans i'r gadair. Lle'r pregethwr yw cadeirio.

GWYN EVANS.—Mae wedi'i basio. Yr hyn a ysgrifennwyd a ysgrifennwyd.

SIMON (Yn cymryd y gadair).—Ofni'r aiff hi dipyn yn boeth yma cyn y diwedd, yr ydych chiwi, Mr. Evans. Dyna y rheswm eich bod yn gwrthod y gadair, ai ie fe?

GWYN EVANS.—Ewch chiwi ymlaen, syr. Y dyn iawn yn y lle iawn. "The right man in the right place."

SIMON.—Wel, annwyl ffrindiau bach, fe awn at bwne y cyfarfod heb golli amser. Ofer troi a throsi a philo wyau pan yw mater pwysig mewn llaw. (Cwmni! Clywch! Clywch!). Y peth cyntaf yr wyf am osod gerbron yw: A ydych am fyned i'r Genedlaethol?

CWMNI (Yn gwaeddi).—Ydym, ydym.

PRISCILA.—Yes, yes. All out for Cardiff.

MARI.—Mi rown ni eu gwres iddynt yno.

MARTHA.—Rwy'n cynnig yn ffurfiol, fod côr, a hwnnw'n gor undebol y lle i fyned i Gaerdydd.

TELORYDD.—Rwy'n eilio'r cynnigiad.

SIMON.—Rhyw gynnig arall. Os nad oes e, pawb sydd drosto, coded ei law.

(Pawb yn codi dwylo ac yn clapio. Brwdfrydedd mawr).

SIMON.—Da iawn. Da iawn. Mae'n dda gennyf am eich plwc, gyfeillion. Awn efo'n gilydd, ynte, i Gaerdydd. "All hands upon deck." Rwyf i' dros bedwar ugain oed ond deufaf gyda chwi bob cam. (Clapio mawr).

SIENCYN.—Yr hen anian, Simon Jones. Yr ysbryd yn gryf os yw y corff yn gwanhau.

SIMON.—Mae gennyf olwg fawr ar gôr y lle. Oes, gwir ddyn byw. Dywedaf wrthych pam. Os byddaf yn crwydro, Mr. Evans, rhaid i chwi fy ngalw i gyfrif . . .

(Lleisiau lawer: No, no, go on, go on).

SIMON.—Wel, mi ddywedaf wrthych chwi paham mae golwg gen i ar gôr y lle. Yng nghor y lle y gwelais i y wraig gyntaf. (Chwerthin mawr).

MARTHA.—Go on, Simon Jones, fe gawn ni glywed hanes eich caru yn y man. (Chwerthin, clapio).

SIMON.—Mae'n eithaf gwir. Yr oedd yn hogen fach writgoch, yn canu alto yn y 'Nant a'r Blodeuyn' a minnau'n canu Bâs, a mi gatchais i ei llygad hi mewn un ysgol gân. (Chwerthin).

GWYN EVANS.—Cyd-darawiad rhyfedd, Simon Jones. Blodeuyn yn y darn a blodeuyn yn yr altos.

SIMON.—'Roedd merched bach pert digynnig yn y corau 'slawer dydd, gwerth . . . gwerth . . .

SIENCYN.—Gwerth rhoddi cusan iddynt. Gwedwch eich meddwl, y dyn, yn lle bwldagu fel yna.

SIMON.—Ie, ac yn defnyddio dim ond dwr a sebon i olchi baw oddiar eu hwynebau. Heddiw maent yn plastro powdwr a phaent ar ben y baw, ac 'rwy'n synnu eu bod yn gallu canu o gwbl. (Chwerthin).

PRISCILA.—O! for shame, Simon Jones. Chi wastad lawr ar y modern woman.

SIMON.—Wel, yn swm canu côr y lle y gwelais i Nansi gyntaf, ac yn swm canu cor y lle y collais hi ymhen llai na deng mlynedd.

CWMNI.—O!

GWYN EVANS.—Piti, piti.

MARGED ELEN.—Trist iawn, Simon Jones.

SIMON.—Ie, diwrnod claddu Nansi, yr oedd yn ddiwrnod caled i mi, ond daeth côr y lle yn gryno i ganu'r 'Hen Dderby' ar fy nghais ar lan y bedd; ac yr oedd deigr yn cydymdeimlad ymhob nodyn o'r gân.

GWYN EVANS.—Ie, ie, Mr. Jones bach. Mae'r gân wedi lliniaru llawer loes cyn hyn.

SIMON.—Yr oedd yna gwmwl du uwch fy mhên y diwrnod hwnnw, ond fe oleuodd yr 'Hen Ddarby' gryn lawer ar y cwmwl du, ac rwy'n ffrind byth i gôr y lle.

SIENCYN.—Ie, ie. Da iawn. Da iawn.

GWYN EVANS.—Er mwyn trefn a hwylustod, yr wyf wedi tynnu allan raglen fechan i'r cyfarfod. Mae yma amryw o bethau y dylem eu hystyried yn fanwl yn un ac un. Rhof hi i'r cadeirydd, neu efallai yr aiff Simon Jones dros y siop i gyd.

SIMON.—Jawst i, gŵr da y'ch chwi, syr. Sut beth yw bod yn scolar i gael trefn ar bethau.

GWYN EVANS.—Y peth cyntaf i'w ystyried yw 'Ffyddlondeb'; yr ail 'Cariad Brawdol.' Y trydydd—'Un Côr.' Un arweinydd—tri peth angenrheidiol.

SIMON.—Jawst i, yr ydych wedi ei gweld hi. Rhoddwch i mi y rhaglen. (Gwyn Evans yn rhoddi papur iddo). Yn gyntaf, ynte, "Ffyddlondeb." Pwy ddwed air?

SIENCYN.—Fel hen arweinydd corawl, yr wyf am bwysleisio y pwysigrwydd o ffyddlondeb. Os na cheir ffyddlondeb i'r ysgol gân, cheir dim llwyddiant ar y gwaith, ac ofer mynd i Gaerdydd nac un lle arall.

SIMON.—Ie, da iawn. Mae gennyf ti brofiad o'r pechaduriaid esgeulus yma, Siencyn. Rhywun eto.

TELORYDD.—'Rwy'n eilio Mr. Jenkins, y dylai'r cyfarfod hwn basio i wasgu am ffyddlondeb i'r Rehearsale ar bob cyfrif; ac unrhyw aelod a gyll ragor na dwy ysgol gân heb esgus digonol, i'w ddiaelodi o'r côr. Mae hyn yn deg, onid yw?

OWMNI.—Ydyw, ydyw. Ymlaen â'r gwaith.

SIMON.—Ie, ie, sôn am ffyddlondeb, bobol bach, 'does dim ffyddlondeb nac aberth i'w gael heddiw fel oedd 'slawer dydd.

SIENCYN a GWYN EVANS.—Nac oes, nac oes, gwaetha'r modd.

OWMNI.—Cywilydd! Cywilydd!

SIMON.—Yr wyf yn cofio adeg pan oeddem yn cerdded pedair milltir o ffordd i'r ysgol gân, ac yno i'r funud. Wyt ti'n gwybod, Siencyn.

SIENCYN.—Reit dda, Simon Jones. Cerddasom hi ddegau o weithiau.

SIMON.—Ond heddiw cerddant hwy ddim can llath. Rhaid iddynt gael rhywbeth i'w cario.

TELORYDD.—A dim yn sier o ddod mewn pryd wedyn.

OWMNI.—Cywilydd! ((Chwerthin)).

SIMON.—Rwy'n cofio, a tithau Siencyn yn cofio hefyd, pan oedd hen wragedd yn gystal â rhai ifainc, yn canu yn y côr, ac yn ffyddlon ymhob ysgol gân.

SIENCYN.—Odw'n dda, Simon Jones. Gwir bob gair

SIMON.—Ond heddiw os y cant "engagement ring" ambell waith y deuant, ac os y cant 'wedding ring' deuant hwy ddim o gwbl.

PRISCILA.—Chi 'very rude' Simon Jones. Fi objecto i 'remarks' fel yna am 'ladies.' (Chwerthin).

MARI.—Ymlaen â'r gwaith.

TELORYDD.—Ie, ie, ymlaen â'r gwaith.

WIL BACH.—Ie, ie. Cheer O. (Yn gwaeddi).

SIMON.—Taw son, grwt bach. Eistedd lawr; 'rwyf ti tel rhyw lantern gorn obeutu y lle.

MARI.—Rhowch diti botel iddo. (Chwerthin).

SIENCYN.—Ymlaen â'r gwaith; ymlaen â'r gwaith.

PRISCILA.—Ie, neu awn ni byth i Gaerdydd.

SIMON.—O'r gore, o'r gore. Beth yw'r pwynt nesaf, Mr. Evans? (Yn edrych ar y papur). Yr ydych yn bregethwr da, syr, ond ysgrifennwr gwael ofnatsan. Beth yw'r baglau brain yma?

GWYN EVANS.—Cariad brawdol.

SIMON.—Wei y Brele Fawr! Dyma gwestiwn cynnil yn awr, Mr. Evans. Yr ydych chwi yn cael eich talu am bregethu Cariad Brawdol. Cynnigiwch rhywbeth.

GWYN EVANS.—Gwnaf, gwnaf, Mr. Cadeirydd. Yr wyf yn cynnig bod y cyfarfod hwn yn pwysleisio ar y Côr y pwysigrwydd o gariad brawdol yn anad dim. Heb gytgord yn y galon, amhosibl cael gwir gytgord yn y gân. Mae . . .

MARI (Yn wyllt).—Hawdd siarad, ond ar bwy mae'r bai na tyddai cariad brawdol yma?

MARTHA.—Arnat ti a'r criw sydd yn dy ddilyn di. Dyna'r gwirionedd i ti.

SIMON.—Pup, pup! Distawrwydd! Un ar y tro, beth bynnag.

PRISCILA.—Ma mama a fi yn "agreeo" â chi yn berffaith cyn belled. Ma rhaid cael 'brotherly love' a 'sisterly love' hefyd. 'Does dim rheswm mewn canu 'sacred pieces' fel 'Efe a Ddaw' a 'Worthy is the Lamb,' a ffræo fel cathod ar y ffordd i'r Rehearsal.

SIMON.—Son am ganu yn yr Ysbryd! Yr hen bobl am dani; wyt ti'n cofio, Tilwr?

MARI.—Dyna fe, 'slawer dydd eto!

PRISCILA.—Fi'n codi i 'point of order,' a fi'n cynnig eich bod yn cadw at yr 'Agenda' a mynd ym mlaen â'r gwaith.

GWYN EVANS.—Hum! Efallai hynny, ond wyddoch chi, 'does gan hen ddyd ddim ond y gorffennol i gael; 'does ganddo ddim i edrych ymlaen ato, ond pen y daith yn yr ymyl.

TELORYDD.—Ie, ie; go on Simon Jones. Dewch a'r stori. Chwarae teg, 'nawr.

SIMON.—Ie, son am ganu yn yr Ysbryd. Wyt ti'n cofio, Tiwr, am Gymanfa Bethel, pan oedd Côr y lle yn canu 'Awn i Ganaan,' a tithau'n arwain?

SIENCYN.—Odw, odw reit dda.

MARTHA.—Ddalia i ein bod ni. Dyna lle'r oedd canu.

SIMON.—'Roeddet ti yn dy hwyliau mawr yn arwain; a wyddet ti ddim yn iawn pa un ai dy ben neu dy draed di oedd ar lawr.

MARI.—Mae ei ben ef yn ddigon ysgafn yn fynych.

SIMON.—Llond y galeri bron o ferched yn canu fel eos-iaid,—'Awn, Awn i Ganaan,' ond yr oedd y Bass ar ôl.

SIENCYN A TELORYDD.—Ie, ie. (Chwerthin).

SIMON.—A dyma tithau yn neidio i ben cadair y pulpud, yn troi at y Bass, ac yn gwaeddi, "Maes â hi, fechgyn, neu fe aiff y merched i Ganaan o'ch blaen chi." (Chwerthin). Y nefoedd fawr, dyna lle'r oedd canu wedyn!

GWYN EVANS.—Ie, ie, da iawn, da iawn.

SIMON.—'Rwy'n llefain nes bo fi'n 'shwps' bob tro wrth feddwl am y gymanfa honno.

GWYN EVANS.—Ie, ie, rhagorol. Yr Ysbryd yn y gân. Ie, ie.

SIENCYN.—Dyna pryd oedd Nansi, Ty-talcen,—hen wraig dros ei phedwar ugain yn neidio'n grwn i ben y sedd ac yn gwaeddi 'Haleliwia, Mae Canaan yn yr ymyl.'

GWYN EVANS.—Ie, ie. Da iawn. Rhagorol.

SIMON.—Ond am y corau heddiw, 'does dim digon o gariad brawdol! Pup, pup, a dim o'r Ysbryd yn y gân.

SIENCYN A TELORYDD.—Nac oes, nac oes.

SIMON.—Ac yr ydych yn credu heddiw, os y gelliwch chi redeg tipyn o Doh, Ray, Me, Fah, eich bod yn medru canu! Pup, pup. Os na fydd yr Ysbryd yn iawn, mae'r un peth gen i glywed cacwn gwyllt mewn gwely o ddanadl poethion ganol haf. (Chwerthin).

MARTHA.—Mae'n ddigon hawdd siarad am frawdgarwech a chariaid brawdol a phethau felly, ond pwy sydd yn achosi y cynnwrf? Pwy sydd yn tarfu'r ysbryd? Dwedi di Siencyn, nawr, sut mae hi wedi bod yn hanes y corau yma. Paid di bod ag ofn dweud, neu mi ddwedaf fi.

SIENCYN.—Dwyf fi ddim am gyffwrdd â theimladau neb, Martha fach. Gwneuthum i fy ngore efo'r côr erioed.

SIMON.—Do, do, Siencyn bach. Ac os oes nefoedd i gael am arwain a disgyblu côr, ti fyddi yno gyda'r blaenaf.

SIENCYN.—Fe gedwais y côr gyda'i gilydd am flynyddoedd, ac nid fy mai i oedd i deimladau drwg i godi ac i'r côr ymrannu.

MARTHA.—Ie, 'rwy'n dweud, mae Siencyn ni yn rhy wirion i ddweud ei feddwl; ond 'doedd dim busnes gan y côr i ymrannu, ag i'r hen gôr speit yna i godi dan arwein iad Telorydd. Dim ond cenfigen, rhagfarn, a 'jealousy' oedd wrth wraidd y cyfan. Dyna y gwir i chi.

WIL BACH (Yn curo ei ddwylo, ac yn chwerthin).—Ha! Ha!!

SIMON.—Be sy arnat ti, blewyn?

TELORYDD.—Ydi'r 'laughing hysteria' arnat ti dywed?

WIL BACH.—Wil y Crydd wedi gwneuthur cân.

GWYN EVANS.—O'n wir, gad ei chlywed, Wil bach. Wil Bach.—

"'Rodd Côr bach y Teilwr yn canu'n olreit
Ond cododd côr arall, a hwnnw'n gôr speit,
Mae dau gôr yn canu, a'r ddau ddim yn iach
Mae'n amser lled ddigri yn y pentre bach."

MARI (Yn sarrug).—O'n wir, dwed di wrth Wil y Crydd am iddo feddwl am gwyro esgidiau, ac nid cyfansoddi hen rigymau. Maent yn gollwng dŵr ar ei ôl cyn nos tran-noeth. Côr speit yn wir.

GWYN EVANS.—Tawelwch, tawelwch. Dim ffraeo.

MARI (Yn wawdlyd).—Het Marged Elen yn wir. Oes yna ryw ddynes yn ei iawn bwyll all ddweud fod het Marged Elen yn bertach het na het Priscila ni. A mi ddyweda i wrthot ti beth arall, Martha Jenkins, fe dalodd Priscila ni am ei het pan y cafodd hi. Mae dy Farged Elen di heb dalu am ei het eto. (Chwerthin).

GWYN EVANS.—Ie, ie. Byddwch yn bwylllog yn awr Dim ffraeo. Ie, dyna sut y duechreuodd y cweryl gyda'r sopranos. Ellwch chwi ddweud sut y dechreuodd ef gyda'r Altos?

MARTHA.—Gallaf, gallaf; ac y mae'n ddylach fyth 'Roedd y tamaid 'porter' yna sydd yn y 'stesion' yn caru Miss Jones, Y Fron, un o'r Altos, ac fe aeth hwnnw i hebrwng Mari Price, Tygwyn, o un Ysgol Gân, ac fe aeth y ddwy alto yn jelws o'r tamaid 'porter'. (Chwerthin).

GWYN EVANS.—Ie, ie. Distawrwydd yn awr. Beth am y Tenor a'r Bass?

MARTHA.—O, yr oedd yr hen grytiaid yn ddigon penygafn i gymryd dylanwadu arnynt gan y rhocesi, ac fe aeth y rhai hynny hefyd i ffraeo â'i gilydd.

SIMON.—Pup, pup, pup. Wel, chlywais i erioed ffashwn beth! Naddo, gwir ddyn byw!

GWYN EVANS.—Gwneuthur mynydd o dwmpath o bridd y wâdd.

SIMON.—Sarnu Côr am grwtyn o Borter a gwerth chwech swllt o het. (Chwerthin).

MARI.—Y gwir ag ef, Martha Jenkins ei hun sydd wedi sarnu y côr. 'Does gen i ddim yn erbyn Siencyn; nac yn erbyn Marged Elen ychwaith, ond ei balchter hi, ond am Martha Jenkins, mae fel 'jumping Jehosaphat' obeutu'r lle. Pe byddai hi yn cau ei hopran . . .

SIMON.—Pup, pup. Dim ffraeo, dim ffraeo.

MARI.—Odi, ac y mae'n tynnu hen fenywod y stryt yr un ffordd â hi. Dyna lle maent hwy fel haid o hwyaid "cwac cwac" o hyd, ac yn ceisio sarnu côr Telorydd ni. Yr wyf fi yn falch iawn i ni fynd allan o'i chôr hi, a chychwyn côr bach ein hunain.

MARTHA.—Mynd allan o'n côr ni yn wir! Faint e golled oedd colli Mari Isaac o'r côr, carwn wybod. Dwed di, Siencyn, beth wnaeth hi pan oeddem yn cystadlu ar "We never will bow down" yn Eisteddfod Bryn Cerdd? Dwed di, Siencyn, paid di bod ag ofn.

SIENCYN.—Na ddwedaf fi, Martha fach. Yr ydych chwi yn dweud digon drosof fi.

MARGED ELEN.—Hisht, Hisht. Byddwch ddistaw, mam! tach. Gadewch i bethau yn llonydd.

MARTHA.—Na fyddaf fi ddim yn ddistaw. E fynnaf siarad. Dwy'n hidio dim coesen am yr un copa walltog ohonynt.

TELORYDD.—Wel, sut y bu hi?

MARTHA.—Yr ydych yn gwybod yn iawn sut y bu hi. E sowliodd Mari Isaac ni i gael y wobr.

PRISCILA (Yn wyllt).—Rhaid i chwi roddi full explanation i mama, neu dynnu'ch geiriau'n ôl.

MARTHA.—Aros di dipyn bach, Priscila; fe gei di "explanation" yn awr, ac yn "full" hefyd: mor "full" a mynnot ti. Chwi wyddoch lle mae y Sopranos yn dod i fewn ac yn arwain yn "We never will bow down."

TELORYDD.—Gwyddom, gwyddom.

MARTHA.—Wel, fe ddaeth Mari Isaac i fewn cyn y curiad, a dim ond hi ei hunan. Chwi wyddoch sut y bu hi. 'Does dim eisiau i fi ddweud wrthy chwi . . .

CWMNI.—O! O! O!

SIENCYN.—Ie, ond chwarae teg, Martha, damwain oedd hynny.

GWYN EVANS.—Ie, ie. "Accidents will happen even in good choral singing."

PRISCILA.—Ie, ond fe ganmolodd y beirniad lais mama, er hynny.

MARTHA.—Canmol ei llais hi yn wir,—Dywedodd fod rhyw gath yn y côr wedi mewian cyn pryd, neu ryw beth i'r perwyl hynny.

(Mari a Priscila yn cynhyrfu).

MARI.—Cath yn wir! Rhaid i chwi dynnu eich geiriau yn ôl, neu fynd o flaen eich gwell. (Priscila a Mari yn cydio mewn cwshin yr un, yn eu tafu at Martha, ac yn gwaeddi): "Apology, apology."

Martha yn tafu y cwshinâu yn ôl atynt. Wil bach â chwshin dan ei gesail yn neidio'n grwn i ben cadair, ac yn anelu'r cwshin at y ddyw ddynes.

CWMNI (Cynnwri mawr, ac yn gwaeddi).—"Chair," "chair," "chair."

SIMON (Yn taro'r bwrdd ac yn gwaeddi).—Distawrwydd! Distawrwydd!!

LLAIS (O'r tu ôl i'r llen yn y pellter; gall y bachgen fydd yn actio 'Cythraul y Canu' wneuthur hyn, ond iddo galw o'r golwg. Gofaled ei fod yn gwaeddi'n uchel gan ddal ar y gair olaf).—Pwy gôr yw e, Mabon?

SIMON (Yn gwaeddi).—Côr y lle, 'machgen i, ac y mae'n randibw yma.

CYTHRAUL Y CANU (Yn dod i'r drws yn y ddiwyg a ddisgrïar ar dudalen yr ail, Pawb yn dychrynu, ac yn ceisio ffoi rhagddo ac yn gwaeddi).—O! O!!

WIL BACH.—Pwy yw e? Pwy yw e?

CYTHRAUL Y CANU.—Da 'mhlant i. Yr ydych yn gweithio'n ardderchog iawn. Balch wyf ohonoch fel fy nghanlynwyr. (Yn myned ymlaen ar y llwyfan, ac yn rhyw edrych ar hwn a'r llall, wrth basio. Hwnnw'n cilio'n ôl ac yn gwaeddi O! Yn myned ymlaen at Martha, ac ar ôl sylwi arni am funud, yn esgus ei chofleidio, neu roddi topad iddi â'i gyrn.

MARTHA (Yn ofnus).—Sefwch bant, sefwch bant, y dyn! Stopia fe, Siencyn. Stopia fe, neu fe'm lladd yn awr...

(Cythraul y Canu yn myned ymlaen wedyn, ac yn edrych ar Mari Isaac, gan ryw esgus cofleidio neu dopi hono)

MARI ISAAC.—Y dyn ysbryd drwg! Peidiwch a dod yr agos ataf fi. Stopia fe, Telorydd, stopia ef, neu fe gaf bangfa yn awr.

SIMON (Yn wyllt gydag ychydig atal dweud).—Ie lycoch chi, Mr. Evans, gofynnwch i'r gŵr bonheddig pwy yw e, a beth yw ei neges yma? Yr ydych yn well siaradwr na mi.

GWYN EVANS (Yn ofnus).—Esgusodwch fi, syr. P—P—Pwy ydych chwi, a mod i mor eon a gofyn?

CYTHRAUL Y CANU (Yn fawreddog).—Y fi yw Cythraul y Canu. Mae fy enw'n admabyddus drwy Gymru benbaladr.

CWMNI.—O!

GWYN EVANS.—O—O—O ba le yr ydych yn dod, syr?

CYTHRAUL Y CANU (Yn pwyntio i lawr â'i fys).—O obry, obry, obry. Mi fum yn gaeth, ond torrais y gadwyn a diengais.

GWYN EVANS.—B—B—Ble mae eich hawl chwi i'r cynteddau hyn, syr, ac i gynhulliad o bobl barchus fe hyn?

CYTHRAUL Y CANU.—Hawl yn wir! Ha! Ha!! Nid wyf yn gofyn am hawl. Yr wyf yn myned i bob Eisteddfod, i bob Cymanfa Ganu, i bob Cyngerdd, ac i bob Ysgo! Gân, a hynny heb ofyn hawl neb. Yr wyf wedi sbwylic llawer o gorau da yn fy nydd, ac fe ysbwylic lawer eto. Mae fy amser yn brin. Mae corau eraill yn galw am danaf Nos dawch. (Yn myned gan wneuthur sŵn efo'i gadwyn).

GWYN EVANS.—Ie, nos dawch a melltith arnat.

SIMON.—Jawst i, down i'n leicio dim o'i ebrwch ef. Bachan cloi yw ef. Ie, gwir ddyw byw.

PRISCILA.—Ych y fi, mae wedi fy hiala i'n sâl reit i chi.

(Y cwmni'n ddigalon ac yn rhyw edrych ar ei gilydd).

TELORYDD.—O, wel, ymlaen â'r gwaith. Nid gwiw digalonni.

WIL BACH.—Ie, ie, neu awn ni byth i Gaerdydd.

SIMON.—Wel, 'does dim shap y gweiwn ni'r un Caerdydd, os daw y bachan â'r cyrn yna obeutu'r lle. (Chwerthin).

SIENCYN.—Ymlaen â'r gwaith. Os daw e yma eto rhaid iddo ei heglan hi oddi yma.

MARI.—Rhaid, rhaid. Efe â'i gyrn. Ych y fi!

TELORYDD.—Ymlaen â'r gwaith. Beth yw'r peth nesaf ar y rŵnaglen?

SIMON.—O'r gore, o'r gore. Fe'i treiwn hi eto. Y peth nesaf yw "Un Côr ac Un Arweinydd."

WIL BACH (Yn chwerthin fel ymfyтын).—Ha! Ha!!

MARGED ELEN.—Be sy arnat ti, Wil Bach?

SIENCYN.—Mae fel rhyw ysbleddach drain dan grochan o hyd. Be sy arnat ti, tybed?

WIL BACH.—Cân Wil y Crydd eto.

MARTHA.—Cân Wil y Crydd yn wir! Gad ei chlywed hi.

WIL BACH.—

“Mae côr bach y Pentre, a dyma'i chwi 'joke'
Am fynd i Gaerdydd i geisio gwneud stroke,
Ant hwy byth i'r Eisteddfod tra dŵr yn y môr,
Waeth Cythraul y Canu yw Meistr y Côr.”

SIMON (Yn curo'r bwrdd ac yn ddigofus).—Pup, pup. Wyddoch chwi, y mae y beirdd heddiw yn gallu canu celwyddau fel cŵn yn trotian.

TELORYDD.—Dwed di wrth Wil y Crydd os nad yw e'n stopio â'i brydydda, y danfonwn ni ef i'r un man â Chythraul y Canu.

PRISCILA.—A tithau, Wil bach, yr un ffordd ag ef, am dy fod yn cario clecs ar hyd y pentref ynghylch y corau.

WIL BACH.—Na, dim fi, dim fi.

SIENCYN.—O'r gore, ymlaen â'r gwaith; ymlaen â'r gwaith.

SIMON.—Be sydd gennym mewn llaw yn awr? Mae nghof i yn wael.

GWYN EVANS.—Dewis arweinydd y côr, syr.

SIMON.—Ie, ie, jobin cynnil eto. Oes rhyw gynnig?

PRISCILA (Yn wyllt).—'Rwy'n codi i gynnig Telorydd brawd fi, yn Arweinydd y Côr.

RHAI O'R CWMNI.—O! . . .

ERAILL O'R CWMNI (Clapio).—Ie, ie, Telorydd, Telorydd. O'r Canon ag e!

PRISCILA (Yn wyllt).—Pob parch i Siencyn Jenkins. Drwg gennyf fy mod yn gorfod siarad fel hyn yn presenoldeb fo; ond ma Siencyn yn mynd yn hen, a ma fe yn rhy hen cashwn. Ma fe ddim yn gwisgo fel gŵr bonheddig, ddim 'cless' obeutu fe, a mae hi yn "infra dig" i Côr Cenedlaethol i gael ei arwain gan dilwr.

RHAI O'R CWMNI.—Clywch! Clywch!

MARI ISAAC.—Mae Siencyn yn iawn fel teiliwr. Mae'n gwneuthur dillad i ffitio yn o lew. Ond wft iddo fe fel Arweinydd Côr. Mae e'n gwneuthur gormod o shapau Mae e fel dyn "india rubber," ac nid fel dyn enawd ac esgyrn. (Chwerthin). Ond mae Telorydd ni yn 'up-to-date' in everything, ac os ydi'r côr i fynd i Gaerdydd, Telorydd sydd i arwain.

RHAI O'R CWMNI.—Clywch! Clywch! Telorydd! Telorydd!

PRISCILA.—Peth arall i chwi, dyw Siencyn dim wedi teithio byd fel Telorydd ni. Dim "education," dim 'culture.' Wedi treulio oes yn siop tilwr. Be wyr dyn fel efe am ganu?

SIMON (Yn wyllt).—Aros nawr, Priscila. Aros. Nid wyf fi am bartio dim, ond allaf fi ddim a dy oddef di yn awr. Mawr yw dyled Cymru, cofia di, i fechgyn y Siop Grydd, Siop y Teiliwr, Efail y Gof, a Gweithdy y Saer. Dyma golegau'r oes o'r blaen. Y nhw gadwodd yn fyw yr hen ddiwylliant Cymreig. Ond taw ef, syr? (Yn troi at Gwyn Evans).

GWYN EVANS.—Ie, ie, tynnwn ein hetiau i'r bechgyn hyn. Y bechgyn aberthodd gymaint i ddyrchafu llenyddiaeth a barddoniaeth y genedl, a hynny yn wyneb cymaint o anafanteision.

SIMON.—Ie, ie. Rhywun etog ffrindiau? Rhyddid i bob un i siarad, ond i chwi beidio siarad i gyd ar yr un pryd.

MARTHA.—Gosod Telorydd i arwain yn wir! Chlywai: i erioed sut ffwlbri. Os oes côr i fynd i Gaerdydd, 'does neb ond Siencyn ni i arwain neu fe fydd yn halibalw yma.

MARGED ELEN.—Ust nawr, mam fach. Gwell i chwi toŵ yn ddistaw.

MARTHA.—Distaw yn wir! Na fyddaf fi ddim yn ddistaw. Fe siarada nes bo nhafod i'n dwll, cyn caiff dy dad golli'r côr.

RHAI O'R CWMNI.—Ie, Siencyn. Siencyn. O'r boy ag e!

MARTHA.—Pe bai'ch chwi yn sylweddoli gymaint mae Siencyn ni wedi aberthu dros y côr, a'r gofid yr wyf fi

wedu gael ganddo, bytdech chwi ddim am ei droi nail
chr.

RHAI O'R CWMNI.—Na fyddem, na fyddem; cywilydd!
cywilydd!

MARTHA.—Siencyn ni sydd wedi codi y lle yma i en-
wogrwydd drwy ei gôr. (Clywch! Clywch!) Mae wedi bod
yn arwain côr y lle cyn geni eich hanner chwi. (Clywch!
Clywch!).

MARI.—Glywch chwi'r hen chwirli-gwgan! Mae'i thafod
hi fel gogr mashin nithio.

PRISCILA.—Ie, yr hen fireworks!

SIMON.—Nawr, nawr. Un ar y tro, os gwelwch fod yn
dda.

GWYN EVANS.—Ie, ie, a dim ffraeo; dim ffraeo.

MARTHA.—Cannoedd o weithiau mae e wedi dod gar-
tref o'r Ysgol Gân â'i grys ef fel pe wedi bod yn yr afon.

GWYN EVANS.—Ie, ie.

SIMON.—Ydi, ydi, Martha fach.

MARTHA.—A dyna lle bydd e'n mynd i'r gwely, ond
nid yw'n cysgu fawr. Mae e'n breuddwydio fod y Côr
yn myned maes o diwn, ac y mae'n neidio fel dyn dwl,
yn chwarae ei freichiau nes bo dillad y gwely dros y lle i
gyd.

WIL BACH.—Ha! Ha!!

MARTHA.—Chwerthin wyt ti, y penbwl bach.

MARGED ELEN.—Wel wir, mam fach, yr ydych yn
ddoniol heno.

PRISCILA.—Pob parch i Jenkyn. Mae e wedi bod yn
dda yn ei ddydd; ond ma rhaid rhoi "sentiment" heibio
er mwyn llywyddiant y Côr. Mae Telorydd yn well arwein-
ydd a ma fe yn "College trained man," a deall mwy.
(Clywch! Clywch!).

MARTHA (Yn wyllt).—Yn deall mwy yn wir.

MARGED ELEN.—Mam fach, byddwch yan dawel.

MARI.—Odi. Mae e'n deall mwy. Bob tro mae Telor-
ydd yn dysgu ei gôr, mae Siencyn yn danfon rhywrai i
wrando y tu allan i'r drysau er mwyn dwyn "points"
oddiar ein côr ni.

MARTHA.—Wel y Babylon Fawr.

MARI.—Mae'n eithaf gwir i chwi. Oddi wrthym ni y
cawsoch chwi yr amseriad priodol i "Worthy is the
Lamb," a'r mynegiant iawn i'r 'Haleliwia Chorus.'

MARTHA.—Wel, y Jericho wyllt! Siencyn ni yn dwyn
points oddiar Telorydd yn wir! Chlywais i erioed sut
ddylni pen hewl. Roedd Siencyn ni yn gwybod amseriad
yr hen "Worthy" a'r mynegiant iawn o'r 'Haleliwia
Chorus' cyn i dy Delorydd bach di i wisgo 'trousers'
erioed. Dyna'r gwir i ti. (Chwerthin).

SIMON.—O'r gore, o'r gore. Dim ffraeo nawr.

GWYN EVANS.—Ie, ie. Dim 'fixed bayonets' os gwel-
wch yn dda. Pwyll ac amynedd pia hi fobol bach.

MARI.—Dyma beth arall i chwi. Oddiar pan mae
Telorydd ni wedi cychwyn ei gôr, mae e wedi ennill mwy
na'ch côr chwi.

MARTHA.—Yr argian fawr! Ymhle enillsooch chwi?

MARI.—Fe'ch curasom chwi yn Llaingain yr wythnos
ddiweddaf. "Deg point" o'ch blaen chwi ar "Y Blodeu-
yn Olaf."

MARTHA.—Do, do; ond sut curasoch chwi? A phwy
oedd yn beirniadu?

PRISCILA.—"Degree man" o'r 'College.'

MARTHA.—'Degree man' yn wir. Roedd yn fwy o
ddigri nac o "ddegree." Dyna lle yr oedd ef a'i 'spats'
a'i 'guffs' a'i goler. Welais i sut Travelling Showman
erioed. (Chwerthin).

SIMON.—Wel, yr wyt ti Martha yn galler ei dweud hi,
wyt, gwir adyn byw.

MARTHA.—Ie, dyna lle yr oedd ef a'i einiau Lladin.
Beth oedd y gair hwnnw oedd ganddo, Siencyn? Rhyw
beth tebyg i "Dim i ginio" . . .

MARGED ELEN.—"Diminuendo," mam fach. "Dim-
inuendo."

MARTHA.—"Dim yndo" yn wir! Doedd "dim yndo"
fe fel beirniad, rwy'n sicr o hynny. Beth oedd y gair arall
oedd ganddo, Siencyn? Rhyw beth tebyg i 'Halen a thato'?

MARGED ELEN.—"Allegretto" mam fach. "Allegret-
to."

MARTHA.—“Allegretto” yn wir. 'Roedd halen a thato yn ddigon da iddo. (Chwerthin a chlapio).

SIMON.—Diar i. Stopia, stopia! Hen groten biwr di-gynnig wyt ti Martha erioed. 'Rwy'n cofio am dy fagu di, ond rhaid dweud dy fod dipyn bach yn hir dy dafod.

MARI.—Dipyn bach, yn wir! Dywedwch bedair modfedd ar ddeg . . .

TELORYDD.—Wel fe gyfaddefwch Mrs. Jenkins, fod ein côr ni wedi bod yn bur llwyddiannus. Yr ydym wedi ennill droeon.

MARTHA.—Ydych, ydych; ond mae sawl 'sort' o ennill a sawl ffordd o ennill hefyd. Teiliwr yw Siencyn ni, ac nid yw'n berchen cyw giar, ond yr ydych chwi yn byw yn yr Hafod ac yn magu gwyddau. (Chwerthin).

SIMON.—Wel, Martha, Martha. Aros nawr. Beth sydd a fynno magu gwyddau â chôr yr Eisteddfod? Chlywais i erioed ffashwn beth.

MARTHA.—Aroswech chwi funud, Simon Jones. Yr y'ch chwi yn gwybod cryn dipyn, ond dim yn gwybod popeth. Mae Siencyn a finnau wedi bod yn rhifo y gwyddau ar tuarth yr Hafod, a bob tro mae Telorydd a'i gôr yn ennill mae yna wydd yn mynd yn llai ar y buarth.

MARI.—Wel, y fenyw ysbryd drwg! Ydych chwi am ddweud ein bod yn bribo y beirniad drwy rod-di gwydd iddo?

MARTHA.—Na, dim sut beth. Ond mae Siencyn a finnau wedi bod yn siarad, ei fod yn beth rhyfedd iawn fod gwydd yn mynd yn eisiau bob tro mae gwobr yn dod i'r côr.

MARGED ELEN.—Mam fach, efallai mai cadno sydd yn dwyn yr wydd.

MARTHA.—Cadno yn wir! Taw son groten. Mae y cadno yn cael y bai pan nad yw'n haeddu'n fynych.

MARI.—Rhaid i chwi dynnu'ch geiriau'n ôl, neu fyned o flaen eich gwell . . .

PRISCILA.—Ie, “Apology, Apology, Apology.”

(Mari a Priscila yn neidio ar eu traed fel o'r blaen, ac yn tafu cwshinau at Martha. Martha yn eu tafu'n ôl.

Wil bach fel o'r blaen, yn neidio i ben stol a cwshin ganddo).

CWMNI (Cynnwrf mawr, gwaeddi).—Chair! Chair! Chair!

LLAIS O'R ANTEROOM (fel o'r blaen).—Pwy gôr yw e, Mabon?

SIMON.—Côr y lle, machgen i, a mae'n 'fireworks' yma'n awr.

CYTHRAUL Y CANU (Yn dod i mewn fel o'r blaen, ac yn sefyll yn y drws).—Da 'mhlant i. Yr ydych yn gwneud yn ardderchog eto.

SIMON (Yn wyllt).—Pup, pup! Y bachan a'r cyrn eto. Mr. Evans bach, ellwch chwi wneud rhywbeth iddo? 'Rown ni'n meddwl bod y Testament Newydd yn gallu bwrw allan gythreuliaid.

GWYN EVANS.—Gallaf, gallaf. Helpwch fi, fechgyn. (Y bechgyn yn y cwmni yn rhuthro, er yn ofnus at Gythraul y Canu, ac yn ei wthio allan. Wil bach yn cydio yn y gadwyn, ac yn ei hysgwyd, er difyrrwch i'r dorf).

CYTHRAUL Y CANU.—O! O! I ba le yr af fi?

GWYN EVANS.—I'r nos ac i'r tywyllwch, 'machgen i. CYTHRAUL Y CANU.—Beth wnaef fi fan honno?

GWYN EVANS.—Derbyn cosp yn ôl dy haeddiant, 'machgen i.

CYTHRAUL Y CANU.—Wel, nos dawch ynte. Deuaf i'ch gweled eto cyn Caerdydd. (Y cwmni oll yn clapio ac yn gwaeddi Hwre!)

SIMON.—Wel, dyna waredigaeth. 'Dwy'n leicio ffawr o'r gŵr bonheddig yna.

PRISCILA.—Ych y fi! Byddaf yn siwr o'i weled ef henc yn fy ngwsg. (Chwerthin).

TELORYDD.—Ymlaen â'r gwaith.

MARI.—Ie, ie, ymlaen â'r gwaith.

SIENCYN.—'Does dim rhaid inni ddigalonni. Yr ydych chwi a minnau wedi gweled llawer i ffrwgwd gyda'r canu erioed, Simon Jones, ac fe ddaeth pethau i drefn wedyn.

SIMON.—Ydym, ydym, Siencyn bach. Mae y bachan â'r cyrn yma'n hen lanc, er ei fod yn disgwyl yn ifanc heno.

MARTHA.—Mae'n cadw ei oed yn dda. (Chwerthin).

TELORYDD.—Piti mawr iddo dorri ei gadwyn a mynd yn rhydd.

MARGED ELEN.—Y peth yr wyf fi'n ddweud yw na ddylai dim temladau drwg fodoli yn ein plith ni fel can-torion. Dylem faddau i'n gilydd a helpu ein gilydd.

GWYN EVANS.—Ie, da iawn. Rhagorol, merch i.

MARGED ELEN.—Yr ydym yn beio'r Bachan a'r Cyrn ond daethai hwnnw ddim yn agos onibai ein bod ni yn rhoddi lle iddo. Cariad yw'r peth cryfaf yn y byd, ac y mae cariad yn cadw'r gelyn draw o hyd.

GWYN EVANS.—Ie, ie. Dyna ddweud da yn awr.

MARGED ELEN.—A rwy'n cynnig ein bod yn ei threial hi ar lwybr cariad.

GWYN EVANS.—Rhagorol! Rhagorol!

SIMON JONES.—Jawst i, rwy'n credu bod mwy yn dy ben di, Marged Elen, nac sydd yn ein pennau ni, yr holl pack ohonom efo'n gilydd. (Chwerthin). Fe'i treiwn hi ynte. Fe'i treiwn hi ar lwybr cariad a maddeugarwch. Sut mae y pennill yna gyfansoddoch chwi i gariad yn mynd Mr. Evans?

GWYN EVANS.—Pe bennill?

SIMON JONES.—Y pennill adroddoch chwi yn y seiat pa noson, y dyn. Dywedwch ef, bydd yn gystal â phregeth i ni.

GWYN EVANS.—Dyma fe:

“Cariad a ladd pob gelyniaeth,
Cariad ddifoda'r gwahaniaeth,
Cariad, peth frechaf mewn byd,
Mewn ffrwgwd a chweryl yn wastad,
Gofalwn roi cyfle i gariad,
Cariad ddug drefn ar bob pryd.”

SIMON.—Sut beth yw bod yn fardd, Syr. Yr ydych yn gallu byrlymu barddoniaeth fel trochion sebon. (Chwerthin).

TELORYDD.—Ymlaen â'r gwaith, ynte.

SIENCYN.—Ie, ie, yr ydym wedi clebran llawer ac yn pasio fawr o ddim.

SIMON.—Wel, mae bron mynd yn dywyll post yma. Mr Evans, cynigiwch ryw gynilun i ni, neu waeth i ni gael pregethwr na pheidio.

GWYN EVANS.—Wel, yn hytrach na bod ein gwaith ni heno'n gwbl ofer, yr wyf yn cynnig ein bod yn cymeryd pleidlais y cyfarfod ar y ddau arweinydd sydd ger bron y tŷ. Ac os na allwn ni benderfynu rhywbeth heno'n derfynol, awn yn ôl â'r genadwri i'r bobl, a gohiriwn y mater i ryw amser pellach.

SIENCYN.—Eilio'r cynnygiad.

SIMON.—O'r gore. Pawb sydd dros bleidleisio, coded ei ddeheu law.

CWMNI (Yn codi dwylo).—Vote! Vote!

MARI.—Rwy'n cynnig pleidlais drwy bapurau.

PRISCILA.—Ie, ie, fi credu mewn 'secret ballot.'

SIMON.—O'r gore. Rhowch y papurau allan Mr. Evans. Wil bach, helpa di dipyn yn lle sefyll y fan yna mor llipa â giar ar y glaw.

(Gall pawb ar y llwyfan, ac eithrio'r Cadeinydd, bleidleisio. Pawb yn wyllt ac yn bryderus, yn rhuthro drwy ei gilydd, ac yn rhoddi y papurau i mewn am y cyntaf).

SIMON.—Rhifwch hwynt, Mr. Evans. Byddwch yn onest yn awr.

GWYN EVANS.—O'r gore, o'r gore.

(Pawb yn bryderus a chynhyrfus tra y rhifo yn cymryd lle. Ni raid cymryd ond ychydig amser i rifo).

MARI (Yn gynhyrfus).—Mae Martha Jenkins yn credu nad oes neb yn gallu canu ond hi a'i thylwyth, a neb yn medru arwain côr, ond ei Siencyn hi. Gawn ni weld sut y bydd hi nawr . . .

GWYN EVANS.—Order! Order! Byddwch yn 'sports.'

SIMON.—Ie, ie, byddwch yn 'sports' Bawo sut beth

MARTHA.—E fynna i gyfiawnder ta sut bydd hi.

MARGED ELEN.—Mam fach, os caiff Telorydd y 'majority,' rhaid rhoddi i fewn.

MARTHA.—Waeth gen i ta fe'n cael 'double majority,' does dim o dy dad yn cael colli'r côr.

CWMNI.—“Sport”! “Sport”! Byddwch yn 'sports.'

MARTHA.—Mae Mari Isaac wedi bod yn cario llaeth enwyn ar hyd tai y pentref drwy'r prynhawn. Pwy glywodd sôn am dani hi yn rhoddi llond cwpan tè o laeth-enwyn i neb o'r blaen? Ond yn awr, rhoiff y corddad i gyd i fwrdd.

(Y cwmni yn chwervthin).

TELORYDD.—Distawrwydd yn awr.

SIMON.—Wel, ble yr ydym yn sefyll â hi, Mr. Evans?

GWYN EVANS.—Yn rhyfedd iawn er un man yn gywir syr. Y tŷ wedi ymrrannu'n gyfartal.

CWMNI.—O!

TELORYDD.—O'r ffrympan i'r tân.

SIMON.—Wel, dyma hi yn gopsi gwyllt. Yr ydym yr ddyfnach yn y ffos nag o'r blaen.

GWYN EVANS.—Rhaid i chwi dorri'r ddadl, Simon Jones. Y chwi yw'r Cadeirydd. 'Casting Vote' am dani a chwi wyddoch mai gennyh chwi y mae'r hawl i'w rhoddi.

CWMNI (fel un llais).—Ie, ie, casting vote! casting vote!

SIMON.—Na, dim, dim, dim. Yr argian fawr! 'Rwy'n ymddiswyddo o'r gadair. Mr. Evans dewch chwi iddi yn fy lle i. (Yn ceisio mynd o'r gadair. Gwyn Evans yn ei wthio yn ôl).

CWMNI (fel un llais).—Go on, Simon Jones. Casting Vote! Casting Vote!

SIMON.—Na, na, rhaid i mi fyw yn y pentref yma eto. a dyw ty llygaid i ddim yn rhy dda yn barod.

CWMNI.—Go on, go on. Casting vote, casting vote (Clapio mawr).

GWYN EVANS (Yn amneidio ar y cwmni).—Gwrandewch yn awr. Distawrwydd! Distawrwydd! (Yn gosod ei law ar ysgwydd Simon ac yn edrych at y cwmni). Edrychwch ymaa. Yr wyf yn adnabod Simon Jones ers blynyddoedd bellach. Welais i erioed ohono'n wan yn ei asgwrn cefn, a welais i erioed ohono'n osgoi gwneuthur ei ddyletswydd pan fyddai'r amgylchiad yn galw. Rhaid i chwi roddi'r Casting Vote, Simon Jones.

CWMNI (Yn clapio).—Clywch! Clywch! Casting Vote! Casting Vote!

SIMON (Yn rhyw bêtruso).—O'r gore ynte.

MARI (Yn gosod ei llaw ar ysgwydd Simon Jones).—Cofiwch chwi 'nawr, Simon Jones, os na fotiwch chwi i Telorydd ni, dim rhagor o laeth enwyn gewch chwi o'r Hl. . .

GWYN EVANS.—Distawrwydd nawr! Chwaraeteg!

MARTHA (Yn cau ei dwrn).—Cofiwch chwi Simon Jones, os na rhewch chwi hi i Siencyn ni, gewch chwi drowser byth i'ch ffatio chwi, a deuafe fi byth i'r capel ychwaith, ac fe gaiff Jones y Ffeirad fy nghladdu i.

GWYN EVANS.—Chwaraeteg, mae'n gyfyng ar Simon Jones. Chwaraeteg!

MARGED ELEN.—Ydi, ydi, mae fel yr hen genedl gynt rhwng Piahiroth a Baalsephon.

TELORYDD.—Ie, ie, chwaraeteg i'r hen ŵr.

SIMON.—Ydych chwi yn fodlon i mi roddi fy mhleidlais ar amodau yn unig?

RHAI O'R CWMNI.—Ydym.

SIMON.—Pawb sydd fodlon, coded ei law. (Pawb yn codi dwylo). Wel, 'rwy'n rhoi fy mhleidlais i Siencyn Mae Siencyn wedi bod yn geffyl rhy dda i'w droi ef i'r mynydd i bori.

CEFNOGWYR TELORYDD (a'u pennau i lawr).—O!

MARI.—Cywilydd! Cywilydd!

PRISCILA.—Shame! Shame!

CEFNOGWYR SIENCYN (Clapio a gwaeddi).—Hwre' (Rhai ohonynt yn rhuthro at Siencyn i ysgwydd llaw a gwaeddi) 'Llongyfarchiadau.'

MARTHA (Yn rhedeg at Siencyn, yn gosod ei llaw am ei wddf, yn ei wasgu ac yn dweud).—Yr hen siwgr candi ag e!!

SIMON.—Gwrandewch eto. Yr amodau . . .

GWYN EVANS.—Ie, distawrwydd! Distawrwydd! os gwelwch yn dda.

SIMON.—Ar ôl ti ti Siencyn wneuthur 'stroke' yng Nghaerdydd, ac yr wyt ti'n debyg o'i gwneud hi, waeth bachan tyn wyt ti; rhaid i ti wedyn roddi'r côr i Telorydd oherwydd yr wyt ti, fel finnau'n mynd yn hen. Ac os bydd

Telonydd erbyn hynny'n fab ynghyfraith i ti, bydd yn taro i ti roddi arweinyddiaeth y côr iddo.

Y CWMNI (Yn syn).—O!

MARTHA (Yn disgwyl yn syn ar Marged Elen).—Wyt ti, groten, yn cyfeillachau â'r Telorydd yma, dywed?

MARGED ELEN.—Efallai mod i, mam fach. Efallai mod i, ond nid wyf yn gwneud yn wahanol nag y gwnaeth och chwithau.

MARTHA.—Yr oeddwn yn dy weld di dipyn yn ddi-sylw o gôr dy dad yn ddiweddar. Nawr rwy'n deall beth oedd yn bod.

SIMON.—Yr amod nesaf.

GWYN EVANS.—Distawrwydd nawr. Gwrandewch.

TELORYDD.—Maes ag e, Simon Jones.

SIMON.—Rhaid i Siencyn a Telorydd siglo dwylo.

SIENCYN (Yn troi ei wyneb i ffwrdd).—Na na, dipyn yn galed yw hynny. Dipyn yn galed.

(Telorydd yn rhyw wenu'n ddiffas).

CWMNI (Yn clapio).—Go on, go on.

MARI (A'i dwrn ynghau uwch ben Telorydd).—Na, paid ti, Telorydd. Paid ti, gwrando di ar dy fam.

PRISCILA.—Paid ti, Telorydd.

MARTHA (A'i dwrn ynghau o flaen Siencyn).—Paid ti, Siencyn, paid ti. Gei di 'lecture' gen i. Yr hen fabi gwirion, os y gwnei di.

CWMNI.—Go on, go on. Be sports!

MARGED ELEN (Yn myned ymlaen ac yn cydio ym mraich Telorydd).—Nawr dewch, Telorydd, gwnewch er fy mwyn i. Fe gewch chi chwî y côr ar ôl Caerdydd. (Yn troi at Siencyn). Nawr, nhad, dewch ymlaen; gwnewch er fy mwyn i, ac er mwyn Simon Jones, yr hynaf a'r gonestaf yn y pentref.

(Siencyn a Telorydd yn siglo dwylo. Mari a Martha yn disgwyl yn sarrug).

CWMNI (Clapio).—Hwre! Hwre!

SIMON (Yn llawen).—Jawst i, mae'n dechrau 'shapo' yma. Ydi, gwir ddynd byw.

LLAIS (O'r anteroom fel o'r blaen).—Pwy gôr yw e, Mabon?

SIMON.—Côr y lle, 'machan i, a dyma'r côr fydd yn ennill yng Nghaerdydd.

RHAI O'R CWMNI.—Go on, go on, Simon Jones. Ym mlaen â'r gwaith.

SIMON.—Wei, yr amod nesaf.

GWYN EVANS.—Distawrwydd; Distawrwydd, os gwelwch iod yn dda.

SIMON.—Rhaid i chwi, Martha Jenkins a Mari Isaac siglo awylo.

MARTHA (Yn sarrug, yn cau ei dwrn, yn taro'r llawr â'i throed, ac yn symud yn ôl a blaen).—Na, dim, dim dîm, tra bo trwyn ar ei hwyneb hi.

MARI (Yn cau ei dwrn, ac yn taro'r llawr).—Dim, dîm, dim. E fyta'n 'scarf' bob miffilin cyn sigla i law â hi.

CYTHRAUL Y CANU (Yn dod i'r drws yn yr un diwng ag o'r blaen. Dened yn ddigon pell ymlaen i'r gynulleidfa ei weled ef).—Hentfych, ty 'mhiant i! Tybed i mi ddod mewn pryd eto?

SIMON (Yn wyllt yn rhedeg a'r ffon yn ei erbyn ef).—Y Bachan â'r eym eto. Pup, pup! A ninnau ar fin hodd-ychu. Rhaid ei faeddu, y tro hwn. Helpwch fi, fechgyn

(Rhaf o'r bechgyn yn esgus rhuthro'n mlaen at Gythraul y Canu. Hwnnw'n eu dychrynnau'n ôl â'i gyrn. Wil bacah yn rhuthro'n mlaen. Cythraul y Canu'n esgus ei dopi nes bo Wil bach yn cwmpo ar y llawr).

SIMON (Yn ffyrnigo ac yn dala ei ffon i fyny).—Was y diafol! Mab y felltith, dos i'th ffordd, wnei di!!

CYTHRAUL Y CANU (Yn troi yn ôl).—O! ble yr aif fi?

SIMON.—I'r nos ac i'r tywyllwch, 'machan i.

CYTHRAUL Y CANU (Yn mynd dan iusgo ei gadwyn).—Nos dawch, ynte. Mae dipyn yn brysur arnaf, a chy-maint o gorau ar y ffordd i Gaerdydd.

SIMON.—Ie, i ffwrdd â ti. Dim o dy eisiau yma.

Y CWMNI (Rhai ohonynt yn gwaeddi).—Go on, Mari Isaac. (Eriall yn gwaeddi): Go on, Martha Jenkins. Be sports, neu awn ni byth i Gaerdydd, ac fe ddaw y Bachan a'r Cyn yn ôl. (Y ddwy fenyw yn rhyw hanner edrych ar ei gilydd. Yna'n troi i ffwrdd yn sarrug gan ddweud.—Dim, dim, dim.

MARGED ELEN (Yn myned ymlaen yn llon).—Nawr Telorydd, cydiwch ym mraich eich mam. Gwnewch iddi ddod. (Yn cydio yn ei mam hithau). Nawr, mam, dewch ymlaen.

CWMNI (Yn clapio).—Hwre!

MARTHA (Yn esgus gwthio Marged Elen i ffwrdd).—Gad fi'n llonydd, groten. Gwn dy ddolur di, erbyn hyn (Telorydd yn tynnu ei fam ymlaen, honno'n creu terfysg ac yn tynnu'n ôl; Marged Elen yn tynnu ei mam hithau. Wil bach yn esgus gosod ei ysgwydd o dan Martha i'w gwthio'n mlaen. Martha'n tynnu'n ôl nes hanner syrthio ar draws Wil bach. Hwnnw bron cwmpo. Martha yr ysgwyd Wil bach ac yn dweud "Saf o'r ffordd grwt.")

(Marged Elen yn cydio yn llaw dde Martha. Telorydd yn cydio yn llaw dde Mari ac yn gosod y ddwy law yn ei gilydd. Martha a Mari yn taflu rhyw gipolwg sarrug y naill at y llall, a phob un yn tynnu ochenaid. Marged Elen yn dal dwylo y ddwy yn ei gilydd, yn troi at y cwmni ac yn dweud,—“Cwlwm Tangnefedd.” “Right now” am Gaerdydd.

CWMNI.—Hwre! Hwre! Right through for Cardiff! Hwre!

SIMON.—Popeth yn dda sydd yn diweddu'n dda.

GWYN EVANS.—Cariad byth ni chwyp ymaith. 'Love never faileth.'

SIMON.—'Rwy'n cynnig ein bod yn rhoddi cychwyniad o'r newydd ynte, i Gôr Undebol y lle drwy gydganu 'Harlech,' y teiliwr i arwain.

CWMNI.—Hwre!

Canu, canu mae'r awelon.
Canu mae y blodau rhadlon,
Canu, canu mae yr afon,
Ar ei ffordd i lawr;
Cân yr adar rhwng y cangau,
Cân y sêr drwy'r eangderau,
Nid oes nodyn fyth yn eisiau
Yn yr anthem fawr;
Anthem fawr y Cread,
Anthem lawn o gariad,
Nid oes "discord" yn y côr,
Sy'n moli'r Ior yn wastad,
Pam, O pam, na chanwn ninnau,
Heb un brad yn ein calonau;
Claddwn bob rhyw ddrwg deimladau
Canwn hwyr a gwawr.

LLEN.

